Community Housing Cymru

# Drafft Gyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24

## 13 Rhagfyr 2022

## Crynodeb

Ar 13 Rhagfyr 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei drafft gyllideb ar gyfer 2023-24.

Mae'r ddrafft gyllideb yn ymateb i'r amgylchedd economaidd heriol drwy roi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer unigolion a seilwaith. Mae hefyd yn cadarnhau dyhead Llywodraeth Cymru i adeiladu Cymru 'gryfach, tecach a gwyrddach'. Mae naratif y ddrafft gyllideb yn nodi fod 'chwyddiant wedi erydu gwerth ariannol ein cynlluniau ond nid ein huchelgais'.

Ym mis Mawrth 2022 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y rhaglen fuddsoddi tair blynedd fwyaf erioed o bron £2bn o fuddsoddiad cyfalaf a £700m mewn buddsoddiad refeniw ar gyfer tai a chymorth atal digartrefedd (mae mwy o fanylion am yr ymrwymiadau gwariant tair blynedd hyn ar gael yma). Ers hynny mae cyfraddau chwyddiant uchel ar draws y Deyrnas Unedig wedi rhoi pwysau ar y symiau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w buddsoddi.

O fewn y gyllideb drafft yma, mae Llywodraeth Cymru wedi anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaeth ynghylch buddsoddiad cyfalaf ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwaith ail-flaenoriaethu i ganolbwyntio'r ddrafft gyllideb ar dair prif blaenoriaeth:

- Gwarchod gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol
- Parhau i roi help i'r rhai a y mae'r argyfyngau a wynebwn yn effeithio mwyaf arnynt
- Cefnogi'r economi drwy gyfnod o ddirwasgiad.

Caiff y mesurau hynny a gyhoeddwyd yn y gyllideb sydd yn uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai eu hamlinellu isod.

## Prif Benawdau

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi amlinellu cyhoeddiadau cyllid newydd sy'n anrhydeddu'r setliad aml-flwyddyn ac yn dyrannu cyfanswm o £1bn ar gyfer blaenoriaethau tai (rhwng 2022-25). Y prif benawdau gwariant allweddol o'r gyllideb ddrafft hon yw:

- £330m Grant Tai Cymdeithasol (SHG)
- £166 Grant Cymorth Tai (HSG)
- £10m ar gyfer y Grant Atal Digartrefedd (HPG*)*
- £135m ar gyfer Diogelwch Adeiladau
- £227m ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol yn 2023/24
- £165m ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- £18.8m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol

# Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chynnal y stoc tai presennol

## Adeiladu cartrefi newydd

Y llynedd darparodd Llywodraeth Cymru sicrwydd hirdymor a groesawyd drwy ymrwymiad tair blynedd i becyn cyllid £1bn ar gyfer tai. Mae'r ddrafft gyllideb hon yn anrhydeddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru o £330m mewn SHG ar gyfer 2023-24.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn croesawu adnewyddu'r ymrwymiad i adeiladu cartrefi fforddiadwy carbon isel newydd ar gyfer rhent cymdeithasol y mae gan bobl Cymru angen dybryd amdanynt. Er y gwyntoedd garw sy'n wynebu cymdeithasau tai, nid yw'r ymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy wedi lleihau. Bydd CHC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gydweitiho i ganfod datrysiadau sy'n lliniaru rhai o'r heriau hyn.

Mae'r gyllideb yn dyrannu £200m ar gyfer sicrhau tai ansawdd uchel. Yn ychwanegol mae'r gyllideb hon yn dyrannu £60m i ddatblygu a gweithredu polisi a dededfwriaeth risg llifogydd ac arfordirol, dŵr a charthffosiaeth, gyda £2m wedi ei ddyrannu i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Diogelwch Adeiladau

Yn ôl y disgwyl, mae'r gyllideb hon yn dyrannu £135m ar gyfer Diogelwch Adeiladau. Cyhoeddwyd y pecyn hwn yng nghyllideb y llynedd sy'n nodi cyllid ar gyfer tai blynedd fel sy'n dilyn: £75m yn 2022-23, £135m yn 2023-24 a £165m ar gyfer 2024-25.

# Datgarboneiddio

Ym mis Mawrth 2022 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru Gronfa Seilwaith tair blynedd sy'n darparu cyfanswm buddsoddiad o £1.8bn mewn creu Cymru wyrddach. Eleni rydym yn falch i weld parhad cyllid sylweddol gyda chyfanswm o £1.7bn o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu i flaenoriaethau hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys £92m ar gyfer datgarboneiddio preswyl ac ansawdd.

## Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae gan gymdeithasau tai Cymru ymrwymiad i gynnal anheddau presennol a sicrhau eu bod yn lleoedd diogel, cynnes a fforddiadwy i fyw ynddynt.

Yn ystod 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i'r sector tai cymdeithasol sicrhau safon uwch o EPC A/ SAP 92 cyn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Rhoddodd CHC ymateb ar ran y sector tai cymdeithasol yn esbonio nad oedd yn bosibl cyflawni gofynion SATC 2023 ac y byddent wedi rhoi pwysau enfawr ar gymdeithasau tai a heb ddyrannu cyllid ar gyfer hynny. Heb unrhyw becyn ariannol yn gysylltiedig, byddai'r cynigion wedi golygu y byddai cyfamodau cymdeithasau tai yn cael eu torri. Byddai hyn yn bygwth hyfywedd y sector a'i wneud yn llai deniadol i fenthycwyr preifat.

Gan nad yw drafft gyllideb 2023/24 wedi rhoi unrhyw sicrwydd pellach ar y pecyn penodol ar gyfer SATC 2023, bydd CHC yn ceisio ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru i gael eglurdeb ar eu bwriadau cyllid cyn cyhoeddi'r gylideb derfynol ym mis Mawrth.

## Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio

Dyrannodd cyllideb y llynedd £35m i brofi defnydd modelau cyllid newydd drwy'r Rhaglen. Fel yr amlinellwyd yn y gyllideb ar gyfer 2022-23, mae cyllideb eleni yn anrhydeddu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ac yn dyrannu £72m o gyllid i'r Rhaglen.

# Atal digartrefedd a chymorth i unigolion

## Digartrefedd a chymorth tai

Cafodd cyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai ei gynnal ar linell sylfaen o £166m. Mae'n siomedig peidio gweld cynnydd ar gyfer chwyddiant y galwodd CHC a Cymorth Cymru amdano yn gyson, gan gydnabod y pwysau cynyddol ar wasanaethau a staff rheng-flaen. Gan weithio gyda Cymorth Cymru, byddwn yn parhau i wneud sylwadau i Llywodraeth Cymru am gynnydd ar gyfer chwyddiant.

Mae cyllideb eleni yn gweld £10m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r gyllideb atal digartrefedd er mwyn cefnogi awdurdodau lleol a darparwyr cymorth eraill i barhau â'r ymagweddd 'peidio gadael neb allan'.

## Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal

Fel rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, dyrannwyd £165m i fuddsoddi ymhellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023/24, bydd hyn yn llinell sylfaen yn 2024/25. Daw hyn o fewn pecyn o £10.1bn o gyllid refeniw presennol i gefnogi iechyd a gwasanaethau cymdieithasol. Rydym yn falch i weld buddsoddiad ychwanegol fydd yn rhoi cymorth ariannol y mae ei fawr angen i sefydlogi a chefnogi'r sector drwy gyfnod o bwysau na welwyd ei debyg. Mae'r gyllideb hefyd yn dyrannu £60.5m i'r Gronfa Gofal Integredig.

Rydym yn falch fod ein galwadau, a wnaed mewn partneriaeth gyda'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, ar gyfer cyflog ar gyfer y Cyfnod Byw Gwirioneddol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol. Mae cyllideb ddrafft 2023/24 yn ymrwymo £70 miliwn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru fel y gallant weithredu cynnydd y cyflog byw gwirioneddol – i £10.90 yr awr – gyda gweithwyr yn teimlo'r budd erbyn mis Mehefin 2023.

## Cymorth ariannol i unigolion

Y llynedd cyhoeddodd cyllideb  Llywodraeth Cymru becyn o £162 miliwn i roi cymorth ariannol i unigolion yn yr hyn y rhagwelid fyddai'n flwyddyn heriol.

Eleni mae'r gyllideb yn cyhoeddi nifer o fesurau i gefnogi pobl drwy gyfres o argyfyngau yn cynnwys:

- £18.8m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol
- £2.2m ar gyfer cynllun peilot incwm sylfaenol
- £9m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion
- £35m ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd
- £25m ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

# Cyhoeddiadau eraill am gyllid

- **Cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus**

Bydd awdurdodau lleol yn derbyn £227m o gylid ychwanegol  yn 2023-24, bydd hyn yn codi i £268m yn 2024-25. Mae hyn yn adeiladu ar y cyhoeddiad pecyn gwariant yn 2022 fydd yn awr yn darparu £1bn hyd at 2024/25.

- **Covid - 19**

Mae'r gyllideb hon yn darparu £3m o gyllid i sicrhau y gall Cymru gyfrannu'n llawn at Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig.

- **Diwygio'r Senedd**

Dyrannwyd £0.8m tuag at gost diwygio'r Senedd i sicrhau y gall y Senedd gynrychioli pobl Cymru yn iawn yn y dyfodol.

- **Ymateb Dyngarol Wcráin**

Yn 2023/24 ymrwymodd Llywodraeth Cymru £40m ychwanegol i sicrhau fod gan pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin le o ddiogelwch a noddfa.

- **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Mae'r gyllideb yn dyrannu £40m ychwanegol i gefnogi'r sector trafnidiaeth gyhoeddus ar ei daith i ddod yn ddigarbon erbyn 2050.

- **Helpu busnes i ganfod y ffordd drwy'r dirwasgiad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £460m i helpu busnesau sy'n cael trafferthion gyda chynnydd mewn costau dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

*I drafod y papur gwybodaeth hwn ymhellach, cysylltwch â Laura Courtney a Rhea Stevens, Penaethiaid Polisi a Materion Allanol.*

*Laura-Courtney@chcymru.org.uk*

*Rhea-Stevens@chcymru.org.uk*